



Mesur Ymadael yr UE – Yr Ongl Gyfreithiol
Y goblygiadau cyfansoddiadol i Gymru



Plaid | Party of
Cymru | Wales

Cyhoeddwyd gan Plaid Cymru ar Hydref 9fed 2017
Cyswllt: post@plaid.cymru

Comisiynwyd gan grwp San Steffan Plaid Cymru
Ysgrifennwyd gan Awen Fflur Jones

Hyrwyddwyd gan Plaid Cymru, Ty Gwynfor, Marine Chambers, Anson Court, Glanfa'r
Iwerydd, Bae Caerdydd, Cymru CF10 4AL

Argraffwyd gan Colourstat at 68 Rochester Row, San Steffan, Llundain, Lloegr SW1P
1JU

Delweddau wedi eu defnyddio dan drwydded Creative Commons
Cyfeiriadau: Wojtek Gurak/Jan Kench/Rajan Manickavasagam/Flickr

Mesur (Ymadael) yr Undeb Ewropeaidd a'i oblygiadau cyfreithiol a chyfansoddiadol i Gymru

Cyhoeddodd Llywodraeth y DG Fesur (Ymadael) yr Undeb Ewropeaidd ar 13 Gorffennaf 2017. Wedi misoedd o ddyfalu ynghylch darpariaethau'r Mesur, mae'r Mesur, ers ei gyhoeddi, wedi bod yn ddadleuol dros ben.

Yn y papur hwn, rwy'n canolbwyntio ar oblygiadau cyfreithiol a chyfansoddiadol i Gymru. Byddaf yn dadlau sut a pham bod y Mesur yn hollol annerbyniol i bobl Cymru ar ei ffurf bresennol.

Olrheiniodd Ned Thomas, yn ei erthygl "*Brexit: A Moment of Existential Danger*" yn Planet, wreiddiau gwahanol fentrau'r UE o blaid ieithoedd lleiafrifol a diwylliannau llai, gan esbonio sut y gwnaeth y mentrau hynny gymaint i warchod yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. Yn ei farn ef, yr oedd Brexit ei hun yn "*ennyd o berygl dirfodol*" i Gymru a'i hiaith a diwylliant. Er bod yn rhaid cydnabod fod pobl Cymru wedi pleidleisio i adael yr Undeb Ewropeaidd yn refferendwm Brexit, wedi ystyried yn fanwl ddarpariaethau'r Mesur fel y'i drafftwyd, ar ei ffurf bresennol yn fygythiad dirfodol i'r setliad datganoli presennol yng Nghymru.

Yn y papur hwn, rwy'n dadlau:

1. Mae'r setliadau datganoli yn y DG wedi newid cyfansoddiad tiriogaethol y DG yn sylfaenol, er mewn dull esblygol a thameidiog. Nawr yw'r amser i ymrwymo'r cyfansoddiad tiriogaethol esblygol hwnnw yn gyfansoddiad ysgrifenedig i'r DG, gan ddwyn yr holl newidiadau hynny at ei gilydd.
2. Mae'r Mesur fel y'i drafftwyd yn cymryd agwedd ddeuaidd at y setliad datganoli, nad yw'n adlewyrchu'r 'glud' to gyfraith yr UE ar y setliad hwnnw, na'r cymwyseddau a rennir sy'n bodoli rhwng Llywodraeth y DG a Chynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC).
3. Mae angen newid sylweddol i'r Mesur er mwyn sicrhau nad yw'n erydu'r setliad datganoli presennol yng Nghymru, sy'n adlewyrchu dymuniadau pobl Cymru fel y'i mynegwyd yn y ddau refferendwm ar ddatganoli
4. Dylai trafodaethau ynghylch Brexit a'r Mesur fwrw ymlaen mewn dull sy'n adlewyrchu'r setliad datganoli, gyda CCC / LIC yn cael sedd wrth y bwrdd mewn trafodaethau rhwng Llywodraeth y DG a'r UE.

1. Egwyddor cyfansoddiad tiriogaethol y DG, fel yr esblygodd ers datganoli, a pham fod setliad datganoli Cymru dan fygythiad

Mae mandad CCC yn cynnwys dau refferendwm, lle pleidleisiodd pobl Cymru dros ddatganoli yn refferendwm gwreiddiol 1997, ac yna yn 2011 ar symud i'r system bresennol o ddeddfu. Pan fo llawer o ddadl Brexit yn cael ei eirio fel 'cymryd rheolaeth', a gweithredu yn unol ag 'ewyllys y bobl', dylem gofio mai canlyniad y ddau refferendwm – a roddodd arwydd clir mai ewyllys mwyafrif pobl Cymru oedd y dylai CCC fodoli, a chael pwerau wedi eu breinio ynddo y gellid eu defnyddio i ddeddfu mewn dull sydd yn cynrychioli buddiannau pobl Cymru. Nid yw'r ffaith fod Cymru wedi pleidleisio dros Brexit, na bod Brexit yn digwydd, yn effeithio ar ganlyniadau'r ddau refferendwm datganoli hyn. Fodd bynnag, mae'r Mesur fel y'i drafftwyd yn tanseilio egwyddor y setliad datganoli presennol, gan greu ansefydlogrwydd cyfansoddiadol annerbyniol rhwng Senedd y DG a Chymru.

Ers i ddatganoli ymffurfio i ddechrau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, bu cyfansoddiad tiriogaethol y DG yn esblygu'n gyson. Tra bod Senedd San Steffan yn sofran o hyd dan y cyfansoddiad presennol, mae rhai pwerau yn awr yn cael eu harfer yn gyfreithlon gan y gweinyddiaethau datganoledig a'u deddfwrfeydd.

Esblygodd y pwerau datganoledig hyn dros amser. Yn dilyn ail adroddiad Comisiwn Silk yn 2014, a weithredwyd trwy Ddeddf Cymru 2017, mae Cymru o'r diwedd wedi dilyn yr Alban at fodel

'pwerau a gedwir yn ôl', sy'n golygu y gall CCC ddeddfu ar faterion na chadwyd yn benodol yn ôl i lywodraeth y DG. Daw Deddf Cymru 2017 i rym ar Ebrill 2018. Mae Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd, Pysgodfeydd, Addysg, Iechyd a Pholisi Rhanbarthol oll yn feysydd datganoledig i ofal CCC, a gall y sefydliad hwnnw ddeddfu arnynt ar hyn o bryd o fewn cyfyngiadau cyfraith yr UE.

Fel y dywedodd adroddiad Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi: *Brexit: Devolution*, ymddengys bod y setliad datganoli felly ar lefel arwynebol yn awgrymu perthynas ddeuaidd rhwng Cymru (a'r gwledydd datganoledig eraill) a senedd San Steffan -fel petai'r deddfwrfeydd datganoledig yn rhydd i wneud unrhyw beth a fynnant, cyhyd ac nad yw wedi ei wahardd yn benodol gan senedd y DG. Nid yw hyn yn wir, fodd bynnag, oherwydd dau ffactor pwysig.

Y ffactor cyntaf yw bod y tri setliad datganoli wedi eu ffurfio yng nghydestun aelodaeth bresennol y DG o'r UE, ac yn adlewyrchu goruchafiaeth cyfraith yr UE: maent yn adlewyrchu nid perthynas rhwng dau, y DG a'r sefydliadau datganoledig, ond perthynas dair-ochrog, lle mae llawer o'r pwerau allweddol yn cael eu harfer nid yn San Steffan na Chaerdydd, ond ym Mrwsel¹.

Mae Adran 108 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 bresennol yn darparu'n benodol am wahardd Cynulliad Cymru

¹ HoL EUC Brexit: Devolution, para 26

trwy statud rhag deddfu yn groes i gyfraith yr UE. Nid yw Deddf y Cynulliad "yn gyfraith" (a108(2)) os yw , ymysg pethau eraill, yn 'anghydnaws â... chyfraith yr UE' (a108(6)(c)). Unwaith i adran 3 Deddf Cymru 2017 ddod i rym, bydd y rhifo yn newid; cynhwysir y ddarpariaeth yn a108A(1) (nid yn gyfraith) ac a108A(2)(e) (anghydnaws â chyfraith yr UE). Adran 3 Deddf Cymru 2017 a ddyfynnir yn y Mesur.

Canfu Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi y bu'r Undeb Ewropeaidd, mewn gwirionedd, yn rhan o'r glud fu'n dal y DG ynghyd ers 1997². Aeth ymlaen i ddatgan:

*"the supremacy of EU law, and the interpretation of that law by the Court of Justice of the EU, have in many areas ensured consistency of legal and regulatory standards across the UK, including in devolved policy areas such as environment, agriculture and fisheries. In practice, the UK internal market has been upheld by the rules of the EU internal market"*³.

Yr ail ffactor yw'r 'cymwyseddau a rennir', sydd wedi esblygu rhwng sefydliadau'r DG dros amser. Meysydd polisi yw'r rhain lle gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd San Steffan ill dau ddeddfu ar wahanol agweddau. Mae'r cymwyseddau a rennir hyn wedi eu gosod allan yn hynod fanwl mewn deddfwriaeth a weithredir gan Senedd San Steffan, ac er y gall pwerau orgyffwrdd mewn ffyrdd cymhleth, mae sylfaen statudol i bennu a yw unrhyw ffordd benodol o arfer cymwyseddau datganoledig yn gyfreithlon ai peidio⁴.

Tra bod Senedd y DG felly yn cadw grym ym mhob un o'r statudau datganoli i ddeddfu mewn perthynas â materion datganoledig, mae confensiwn Sewel yn mynnu y dylai wneud hynny yn unig gyda chydsyniad y ddeddfwrfa ddatganoledig berthnasol. Mae confensiwn Sewel nawr wedi ei fynegi'n statudol yn adran 2 Deddf yr Alban 2016 (sydd yn ychwanegu isadran 28(8) newydd i Ddeddf yr Alban 1998, ac yn adran 2 Deddf Cymru 2017, (gan ychwanegu isadran 107(6) i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), sy'n datgan fel a ganlyn:

Convention about Parliament legislating on devolved matters

In section 107 of the Government of Wales Act 2006 (Acts of the National Assembly for Wales), after subsection (5) insert—

"(6) But it is recognised that the Parliament of the United Kingdom will not normally legislate with regard to devolved matters without the consent of the Assembly.

Ar waethaf y mynegiant statudol hwn o gonfensiwn blaenorol Sewel fodd bynnag, canfu'r Goruchaf Lys yn achos *Miller* hyd yn oed ar ei ffurf statudol, nad oedd confensiwn Sewel yn fwy na chonfensiwn gwleidyddol, heb sylwedd cyfreithiol i bob golwg. Fodd bynnag, awgrymodd llawer o sylwebyddion gwleidyddol a chyfreithlon ers y dyfarniad y byddai'n 'ffolineb gwleidyddol', i Lywodraeth y DG fwrw ymlaen â'r Mesur heb gydsyniad deddfwriaethol Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

² HoL EUC Brexit: Devolution, para 36

³ Ibid

⁴ HoL EUC Brexit: Devolution, para 29

Ar waethaf y ffaith fod y ddau ffactor hyn yn hynod ddylanwadol, neu yn wir yn hanfodol i'r setliad datganoli, dewisodd Llywodraeth y DG, yn eu hagwedd at y Mesur, fabwysiadu agwedd ddeuaidd at berthynas Cymru / San Steffan.

Dadleuodd yr Athro Roger Scully fod yr hyn oedd yn edrych fel ymlyniad yn y DG at fodel deuaidd, hynod ragnodol yn amharoddrwydd ar ran y llywodraeth ganolog i ystyried rhannu sofraniaeth:

“There is substantial understanding in London of the dimension of devolution that scholars would generally term self rule... of the granting of powers to devolved Governments and Parliaments in Edinburgh, Cardiff, Northern Ireland and so on. There is very little understanding, let alone enthusiasm, for creating the dimension of what scholars call shared rule, where the individual constituent units would participate in their own right in the sharing of powers across the whole state”⁵.

Ar y llaw arall, mae agwedd Llywodraeth y DG yn hyn o beth yn dangos diffyg dealltwriaeth posibl o arwyddocâd mecanweithiau megis confensiwn Sewel, a wreiddiwyd ers hynny mewn Statud, a gwahanol ddarpariaethau eraill y Deddfau a gynhyrchwyd i hyrwyddo ac amddiffyn y gweinyddiaethau datganoledig, i'r modd yr esblygodd cyfansoddiad tiriogaethol, ac effaith ddilynol hyn ar greu cyfreithiau gan Senedd y DG, ac o safbwynt y gweinyddiaethau datganoledig. Dyna pam mai nawr yw'r amser am gyfansoddiad sydd yn adlewyrchu'n gywir y setliadau

datganoli a esblygodd, fel y gall Senedd y DG fod yn sicr ynghylch yr egwyddorion y dylent lynu atynt wrth ymdrin â materion datganoledig yng nghyd-destun Brexit.

Fel y rhybuddiodd Jo Hunt, yn ei phennod 'Devolution' o The UK after Brexit;

“As the UK begins the process of detaching itself from the European Union, the UK's constitutional order is variously pitched somewhere on a continuum between a unitary state and a federation – where the powers held by the different levels of state are constitutionally entrenched. The labels used to describe the UK state, including the status and the relations between its parts have included a union state, a state of unions, a quasi-federation, and a voluntary association of nations. These different perspectives on the place in the UK's constitutional order held by the devolved nations have been able to co-exist in the constitution's inchoate form, providing a pragmatic political fudge. No definitive fixing has been required, until now. The process of withdrawing from the EU places demands on the UK's constitution which require a defining of elements otherwise indeterminate and evolving. Clashes over constitutional expectations are inevitable”⁶.

I grynhoi, felly, esblygodd cyfansoddiad tiriogaethol y DG yn esblygol a thameidiog, gyda gwahanol bwerau yn cael eu rhoi i wahanol ddeddfwrfeydd datganoledig mewn ymateb i adroddiadau amrywiol Gofensiynau a digwyddiadau, yn hytrach na chael ei

⁵ Fel y dyfynnwyd yn HoL EUC Brexit: Devolution, para 31

⁶ “Devolution”, Jo Hunt, The UK after Brexit, Michael Dougan (gol).

ddatblygu mewn unrhyw ddull strategol na dealladwy.

Y sefyllfa yn awr yw, tra'r erys sofraniaeth y Senedd yn oruchaf (a bod gwahanol Ddeddfau Cymru yn cydnabod y gellir eu diddymu gan y Senedd), mae Confensiwn Sewel, a wreiddiwyd bellach hynny mewn statud, yn fecanwaith gwleidyddol pwerus ar gyfer ceisio cydsyniad deddfwriaethol gan Senedd y DG cyn iddynt ddeddfu ar faterion a ddatganolwyd i CCC.

Hyd yma, mae 'glud' trosgynnol cyfraith yr UE hefyd wedi golygu y gallodd cymwyseddau a rennir rhwng Senedd y DG a CCC, a'r meysydd pŵer hynny a ddatganolwyd i'r CCC oll ddatblygu mewn modd a gadwodd undeb domestig y DG yn gyfan, o ystyried natur drosgynnol rheolau marchnad mewnol yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r sefyllfa rhwng Cymru a Senedd y DG felly ymhell o fod yn berthynas 'ddeuaidd'. Felly, dylai pob newid

deddfwriaethol a fydd yn effeithio ar y setliad datganoli settlement yng Nghymru, neu gyflwyno unrhyw gytundebau fframwaith i gadw yn gyfan elfennau o'r undeb domestig yn y DG, at ddibenion masnach etc. gael eu cyflwyno trwy ymgynghoriad a chytundeb rhwng Senedd y DG a CCC / Llywodraeth Cymru. Os nad oes modd dod i gytundeb rhwng y partiön hyn, yna dylai Cymru allu gosod fetó ar unrhyw newidiadau deddfwriaethol a/neu drefniadau fframwaith felly.

Byddai unrhyw ffordd arall o osod newidiadau ar Gymru yn arwydd fod Senedd y DG yn glynu at drefniant deuaidd, lle'r ymddengys eu bod yn ystyried y gellid rhoi ar Gymru rai newidiadau a fydd yn effeithio ar ei setliad datganoli. Ni fyddai agwedd o'r fath yn adlewyrchu o gwbl y newidiadau a wnaed i gyfansoddiad tiriogaethol y DG dros yr ugain mlynedd a aeth heibio, sydd, yng nghyd-destun Cymru, yn adlewyrchu ewyllys pobl Cymru fel y'i mynegwyd mewn dau refferendwm ar ddatganoli.

2. Rhethreg a Realaeth

O ystyried y rhethreg a fabwysiadwyd gan Lywodraeth y DG dros y misoedd diwethaf dros y misoedd diwethaf yn eu disgrifiad o'r ymwneud arfaethedig â gweinyddiaethau datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, hawdd y gallai rhywun faddau i chi am feddwl eu bod yn bwriadu gweithredu yn unol ag egwyddorion cyfansoddiad tiriogaethol esblygedig sy'n adlewyrchu'r setliad datganoli.

Yn ei haraith yn Lancaster House ar 17 Ionawr 2017 er enghraifft, dywedodd Theresa May ei bod yn benderfynol o'r cychwyn "y dylai'r gweinyddiaethau datganoledig ymwneud yn llawn â'r broses [Brexit]". Ymhellach, dywedodd "edrychaf ymlaen at weithio gyda'r gweinyddiaethau yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon i gyflwyno Brexit sydd yn gweithio i'r Deyrnas Unedig gyfan⁷."

Efallai y dylai'r frawddeg nesaf fod wedi seinio rhybudd ym mhennau'r sawl sy'n ymwneud a hawliau'r gweinyddiaethau datganoledig:

"Bydd rhan o hynny yn golygu gweithio'n ofalus iawn i sicrhau - wrth i bwerau gael eu dychwelyd o Frwsel yn ôl i Brydain - fod y pwerau cywir yn cael eu dychwelyd i San Steffan, a bod y pwerau cywir yn cael eu pasio i weinyddiaethau datganoledig yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon."

Er ei bod felly yn datgan ymrwymiad i 'weithio gyda'r gweinyddiaethau yng

Nghymru etc., mae ei brawddeg nesaf yn dangos fod San Steffan yn gweld cwestiwn 'pa bwerau y dylid eu pasio' i'r gweinyddiaethau datganoledig fel cwestiwn i San Steffan yn unig i'w benderfynu.

Eto, ym Mhapur Gwyn Llywodraeth y DG -, rhoddwyd ymrwymiad i "work closely with the devolved administrations to deliver an approach that works for the whole and each part of the UK"⁸.

Fodd bynnag, yr oedd y Mesur, unwaith iddo gael ei gyhoeddi, yn adlewyrchu realaeth tra gwahanol.

Chwe diwrnod wedi araith y Prif Weinidog yn Lancaster House, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru Bapur Gwyn ar y cyd dan y teitl "Sicrhau Dyfodol Cymru". Mae'n gosod allan chwe blaenoriaeth allweddol⁹:

1. Parhau i gyfranogi yn y Farchnad Sengl i gefnogi busnesau, a sicrhau swyddi a ffyniant Cymru yn y dyfodol
2. Agwedd gytbwys at fewnfudo gan gysylltu mudo â swyddi a gwarchodaeth dda, gyda chefnogaeth, i gyflogaeth
3. Ar gyllid a buddsoddi, sicrwydd gan Lywodraeth y DG na fyddai Cymru'n colli cyllid o ganlyniad i ymadawiad y DG o'r UE
4. **Perthynas gyfansoddiadol sylfaenol wahanol rhwng y**

⁷

<https://www.gov.uk/government/speeches/the-governments-negotiating-objectives-for-exiting-the-eu-pm-speech>

⁸ Legislating for the United Kingdom's withdrawal from the European Union, Para 4.4

⁹ Fel y'i crynhowyd yn HoL EUC Brexit: Devolution, para 103

Llywodraethau datganoledig a Llywodraeth y DG, ar sail cydsyniad a pharch at ei gilydd.

5. Cynnal camau gwarchod a gwerthoedd amgylcheddol a chymdeithasol, yn enwedig hawliau gweithwyr
6. Ystyried trefniadau trosiannol i osgoi'r 'dibyn' ym mherthynas economaidd ac ehangach y DG gyda'r UE.

Ymddengys, fodd bynnag, nad yw rhif 4 uchod, sy'n berthnasol i gynnwys y Mesur, wedi ei barchu o gwbl yn y dull y'i drafftwyd, a'r darpariaethau sydd ynddo ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig.

Ers cynnal Refferendwm Brexit ar 24 Mehefin 2016, cyfarfu'r Cydbwyllgor Gweinidogol (CBG), fel y'i sefydlwyd dan y memorandwm dealltwriaeth a ail-gyhoeddwyd rhwng Llywodraeth y DG a'r llywodraethau datganoledig yn 2013, ddwywaith yn unig - ar 24 Hydref 2016, ac ar 30 Ionawr 2017.

Yng nghyfarfod y CBG ym mis Hydref, sefydlwyd Cydbwyllgor Gweinidogol (Trafodaethau'r UE) (CBG-TU), dan gadeiryddiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Adael yr UE, David Davis. Cyfarfu'r CBG-TU gyntaf ar 9 Tachwedd 2016, yna eto ar 7 Rhagfyr.

Mae cylch gorchwyl y CBG-TU yn glodwiw:

"Through the JMC (EN) the governments will work collaboratively to:

- *Discuss each government's requirements of the future relationship with the EU;*
- *Seek to agree a UK approach to, and objectives for, Article 50 negotiations, and*
- *Provide oversight of negotiations with the EU, to ensure, as far as possible, that outcomes agreed by all four governments are secured from these negotiations, and,*
- *Discuss issues stemming from the negotiation process which may impact upon or have consequences for the UK Government, the Scottish Government, the Welsh Government, or the Northern Ireland executive".*

Ers mis Rhagfyr, cyfarfu'r CBG-TU ddwywaith yn unig, yn fwyaf diweddar ar 8 Chwefror 2017. Cyhoeddwyd Papur Gwyn y Llywodraeth ar y Mesur Diddymu ar 30 Mawrth 2017. Ers hynny felly, (ac ers i drafodaethau rhwng Llywodraeth y DG a'r Comisiwn Ewropeaidd gychwyn!) ni chafwyd yr un cyfarfod o'r CBG-TU, ar waethaf sicrwydd a roddwyd gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban (David Mundell) mewn CBG ar 19 Ebrill 2017, sef:

"In our negotiation with the EU, we will be seeking the best deal for all parts of the UK. The Joint Ministerial Committee (EU Negotiations) was established to facilitate engagement between the UK Government and devolved Administrations, and has had regular substantive and constructive discussions"¹⁰.

¹⁰

<https://hansard.parliament.uk/Comm/2017-04-19/debates/C1F898F9-7347-4285-A25D->

[641A1BA32CA8/JointMinisterialCommittee](https://hansard.parliament.uk/Comm/2017-04-19/debates/C1F898F9-7347-4285-A25D-641A1BA32CA8/JointMinisterialCommittee)

Gosodwch y frawddeg hon mewn gwrthgyferbyniad â thystiolaeth Michael Russell, ASA i Bwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar Adael yr Undeb Ewropeaidd ar 8 Chwefror 2017, pryd y gofynnwyd pa mor aml y bu'n cyfarfod:

*Today's the fourth. It meets this afternoon, though I am afraid I could not tell you where, because such is the process of setting these meetings that I do not even know, at this moment, where that meeting is taking place. I think it is somewhere within the environs of this building, but we do not know*¹¹.

Gofynnodd Jonathan Edwards, AS Plaid Cymru dros Ddwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, gwestiwn ysgrifenedig hefyd am y CBG-TU ar 12 Gorffennaf 2017:

*"To ask the Secretary of State for Exiting the European Union, when the Joint Ministerial Committee (EU Negotiations) will next meet"*¹².

Yr oedd yr ateb a gafodd yn nodweddiadol heb ymrwymo i ddim:

"The Government has been clear from the start that the devolved administrations be fully engaged in our preparations to leave the EU. The Secretary of State has had a number of bilateral discussions with the Scottish and Welsh Governments as we have moved into the negotiation phase and we are committed to positive and productive engagement going forward.

¹¹ Fel y dyfynnwyd yn HoL EUC Brexit: Devolution, para 277

¹²

<http://www.parliament.uk/business/publications/written-questions-answers-statements/written-question/Commons/2017-07-12/4456>

In the absence of an Executive, we have also engaged at an official level with the Northern Ireland Civil Service.

*Over the summer, we anticipate there will be regular and sustained bilateral discussions with officials from the devolved administrations, reporting back to Ministers at regular intervals to ensure sufficient progress is being made. There is also a place for multilateral meetings, and we will take that forward as and when it is appropriate*¹³.

Pleidleisiodd Llywodraeth y DG hefyd yn erbyn rhoi'r CBG-TU ar sail statudol ar gyfer trafodaethau Brexit yn ystod pasio Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Rhybudd am Dynnu Allan) 2017.

Ar 21 Mehefin 2017, ym mharagraff agoriadol Araith y Frenhines, mynegodd y Llywodraeth eu hymrwymiad, unwaith eto, i *"working with Parliament, the devolved administrations, business and others to build the widest possible consensus on the country's future outside the European Union"*¹⁴.

Amddiffynnodd David Davis hefyd record y Llywodraeth, yn ei dystiolaeth i Bwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar yr Undeb Ewropeaidd, gan ddweud wrthynt *"We have bent over backwards...to pay attention to the interests of the people of Scotland, the people of Wales, and, of course, particularly the people of Northern Ireland"*¹⁵.

¹³ Ibid

¹⁴

<https://www.gov.uk/government/speeches/queens-speech-2017>

¹⁵ HoL EUC – Brexit: Devolution paragraff 288

O ystyried felly rhethreg a ddefnyddiwyd, a rhai o'r datganiadau a wnaed gan Lywodraeth y DG ac a ddyfynnwyd uchod, wrth i ni ddilyn y llwybr tuag at gyhoeddi'r Mesur o'r diwedd, buasai rhywun wedi disgwyl i'r Mesur adlewyrchu'n ddigonol y setliadau datganoli presennol, ynghyd â manylion cyfansoddiad tiriogaethol esblygol y DG. Does dim rhyfedd felly fod cynnwys y Mesur, unwaith iddo gael ei gyhoeddi, mor ddadleuol, ac yn gymaint o siom i'r gweinyddiaethau datganoledig, fel bod Prif Weinidog yr Alban, Nicola Sturgeon a Phrif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, wedi condemnio'r Mesur fel *"ymgais ddigywilydd i gipio grym ac ymosodiad ar egwyddorion sylfaenol datganoli a allai ansefydlogi ein heconomi"*¹⁶

Fel y dywedodd David Rees, Cadeirydd Pwyllgor Materion Allanol y Cynulliad:

"As we stated in our recent report, this Bill is being introduced following next

*to no consultation with the Welsh Government and no prior consultation with the Assembly. If this Bill does seek to constrain the Assembly's powers, then it could be seen as undermining devolution and the democratic will of the Welsh people, as expressed in the 2011 referendum on full law-making powers for Wales"*¹⁷.

Cyhoeddwyd y Mesur heb fawr dim ystyriaeth i egwyddorion cyfansoddiad tiriogaethol y DG fel y newidiodd ac yr esblygodd ers i ddatganoli ddigwydd. Ymddengys bod Llywodraeth y DG yn cael trafferth i ddeall yr egwyddorion hynny, heb sôn am weithredu yn unol â hwy. Ymddengys nad yw Llywodraeth y DG hyd yma wedi dirnad y rhybudd a roddwyd gan Bwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar yr Undeb Ewropeaidd: *"A successful settlement cannot be imposed by the UK Government; it must be developed in partnership with the devolved Governments"*¹⁸.

¹⁶ Datganiad ar y cyd 13 Gorffennaf 2017.

¹⁷

<https://assemblyinbrief.wordpress.com/2017/07/17/what-does-the-eu->

[withdrawal-bill-mean-for-wales-and-devolution/](#)

¹⁸ HoL EUC Brexit: Devolution para 272.

3. Darpariaethau Mesur (Ymadael) yr UE – diffygion yng nghyd-destun setliad datganoli Cymru

Mae llawer o'r sylwebaeth wleidyddol a chyfreithiol ynghylch y Mesur a ysgrifennwyd hyd yma wedi canoli ar gymalau arwyddocaol ar wahân i'r cymalau ar ddatganoli. Dyma grynodedb damniol Mark Elliott o effaith y Mesur:

"In political terms, the Withdrawal Bill is being presented as the epitome of the taking back of control and the restoration of "sovereignty" that has been so fetishized by some. But it actually demonstrates something very different. It serves as a stark reminder of the way in which the banal rhetoric that has characterised — and that continues to characterise — much of the political debate in this area is now beginning to meet brutal legal and constitutional reality. Some will doubtless find clause 1 of the Bill, with its references to "exit day" and the repeal of the European Communities Act, intoxicating. They should make the most of it. Because the rest of the Bill palpably demonstrates that those drunk on the notion of taking back control need to face up to the fact that they — indeed, we — are in for one hell of a hangover"¹⁹.

Crynhodd Mark Elliott ymhellach brif ddarpariaethau'r Mesur fel a ganlyn:

The Bill will do three key things. First, it will repeal the European Communities Act, which was passed in 1972 in order to enable the UK to join what is now the EU. (Clause 1 – to happen on 'exit day',

whenever that will be) Second, it will turn nearly all existing EU law into UK law. Third, the Bill will give Government Ministers the powers to amend, get rid of, and replace "retained EU laws" (that is EU laws that are converted into national laws by the Bill)²⁰.

Ysgrifennwyd llawer eisoes am y trydydd pwynt uchod, gan mai'r pwerau hyn a roddir i Weinidogion y Llywodraeth, yng nghymalau 7 a 9 y Mesur yw'r pwerau 'Harri VIII' y soniwyd amdanynt mor aml. Ystyr hyn yw bod Gweinidogion yn cael pwerau helaeth (ac i raddau mawr heb eu gwirio na'u llyffetheirio) i gyhoeddi offerynnau statudol i ddelio â 'diffygion' yng nghyfreithiau'r UE a 'gedwir' gan y DG (gan greu corff penodol o 'gyfreithiau'r UE a gedwir') wedi'r diwrnod gadael.

Mae prif ganolbwynt yr adran hon o'r papur am ddarpariaethau cymalau'r Mesur sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y setliad datganoli yng Nghymru, (h.y. cymalau 10 ac 11 y Mesur). Yn adran 4 y papur, yr wyf wedi cynnwys canolbwynt ar rannau eraill y Mesur y dylid eu herio o safbwynt Cymru. Mae'n Nodiadau Esboniadol i'r Mesur yn nodi bod Cymalau 1, 2, 3, 4, 8, 10, 11, 12, 16 ac Atodlen 1, 2, 3, 4, a 7 y Mesur yn mynnu bod Mesur Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei roi gan Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn unol â chonfensiwn Sewel, ac felly dylid ystyried cwmphas pob un o'r

¹⁹

<https://publiclawforeveryone.com/2017/07/14/the-eu-withdrawal-bill-initial-thoughts/>

²⁰

<https://publiclawforeveryone.com/2017/07/14/1000-words-the-eu-withdrawal-bill/>

Cymalau a'r Atodlenni hyn ar Gymru ar wahân yn ofalus.

Fel y crybwyllwyd uchod, cymalau perthnasol y Mesur sy'n ymdrin â'r gweinyddiaethau datganoledig yw cymalau 10 ac 11. Y cymalau hyn sydd yn croesddweud y modd mae Llywodraeth y DG yn llwyr anwybyddu cyfansoddiad tiriogaethol y DG fel y mae wedi newid ac esblygu ers i ddatganoli ddechrau, ac yn wir yn dangos eu penderfyniad i gymryd agwedd ddeuaidd at berthynas San Steffan â Chymru a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill wedi Brexit.

Dyma ddywed Cymal 10;

Schedule 2 (which confers powers to make regulations involving devolved authorities which correspond to the powers conferred by sections 7 to 9) has effect.

Y cyfan mae'r cymal hwn yn wneud felly yw rhoi grym i Atodlen 2 y Mesur, ac y mae'n golygu, yn gyffredinol, y gall Gweinidogion yn y gweinyddiaethau datganoledig hefyd wneud newidiadau trwy Offerynnau Statudol.

'Popeth yn iawn hyd yma', fe allech dybio. Mae a wnelo Cymal 11 felly â chymhwysedd deddfwriaethol y deddfwrfeydd datganoledig (y CCC yng nghyd-destun Cymru) tra bod a wnelo Atodlenni 2 a 3 a chymhwysedd gweithredol (pwerau i Weinidogion Cymru wneud offerynnau statudol / deddfwriaeth eilaidd).

Mae Cymal 11 (2) yn dyfynnu adran 108A Deddf Llywodraeth Cymru 2006, sydd, fel y crybwyllwyd uchod, heb ddod yn gyfraith eto. Rhagwelir y daw i rym yn Ebrill 2018.

Fel y nodwyd uchod, mae cymhwysedd Cynulliad Cymru wedi ei gyfyngu gan y gofyniad i aros yn gydnaws â chyfraith yr UE. Fodd bynnag, mae is-gymal 11 (2) (a) y Mesur yn diwygio A108A trwy newid y cyfyngiad o Ddeddf (y CCC) heb fod yn gyfraith os yw'n anghydnaws â chyfraith yr UE i Ddeddf beidio â bod yn gyfraith os yw'n torri Cyfraith yr UE a gedwir, gyda rhai eithriadau.

Mae Cymal 11 (2) (b) (8) hefyd yn arwyddocaol, gan y dywed na all Deddf CCC newid, na rhoi grym trwy deddfwriaeth eilaidd i newid, cyfraith yr UE a gedwir, ar wahân i allu newid deddfwriaeth eilaidd oedd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol CCC cyn dyddiad gadael (isadran 11 (2) (b) (9)). Ystyr hyn yw na all y sefydliadau datganoledig weithredu wedi'r dyddiad gadael yn yr un modd â chyn gadael yng nghyswllt yr hyn ddaw'n gyfraith yr UE a gedwir. Fodd bynnag, bydd senedd y DG yn cael y grym i newid y cyfan neu ran o unrhyw gyfraith yr UE fel y gwel yn addas wedi'r diwrnod gadael.

Mae'r cymal hwn felly yn rhan o'r hyn mae Prif Weinidogion Cymru a'r Alban yn cyfeirio ato fel 'ymgais ddigywilydd i gipio grym'. Mae'r cymal yn cyfyngu'r Cynulliad i allu newid yn unig gyfraith yr UE a gedwir o fewn cymhwysedd deddfwriaethol CC cyn y diwrnod gadael, yn ôl darpariaethau is-adran 11 (2) (b) (9).

Tra bod y cyfyngiadau hyn yn ddim ond cadarnhad o'r gofyniad presennol i wneud dim nad yw'n anghydnaws a chyfraith yr UE (sef y rheol gyfredol sy'n rheoli grym CCC i ddeddfu), y pwynt yw, wrth gwrs, y bydd yr holl system gyfreithiol yn y DG yn wahanol wedi Brexit. Rhaid diwygio'r Mesur felly i

ganiatáu i CCC gael y pwerau i ddeddfu ar bob mater sy'n dod o dan feysydd datganoledig na fuasent wedi gallu gwneud cyn hyn oherwydd dy buasent wedi tramgwyddo'r cyfyngiad yng nghyfraith yr UE ar gymhwysedd datganoledig. Hyn ddylai fod yr unig egwyddor dderbyniol i fod yn sylfaen i ddychwelyd cyfreithiau'r UE i ddeddfwrfa ddatganoledig Cymru.

Dywed is-adran 11 (2) (10) felly:

“Subsection (8) does not apply so far as Her Majesty may by Order in Council provide.

Mae'r cymal hwn yn rhoi mecanwaith cydsynio gwahanol, oherwydd gellir dadlau y bydd codi unrhyw ofyniad gan CCC i gadw at gyfreithiau'r UE yn y dyfodol neu gyfraith yr UE yn newid cymhwysedd datganoledig, ac os gwneir hyn trwy statud, byddai confensiwn Sewel yn dod i rym. Gan nad yw Gorchmynion yn y Cyngor yn dod dan Gonfensiwn Sewel, mae Llywodraeth y DG wedi ei gyflwyno fel mecanwaith gydsynio neilliol i ryddhau, pan ddewisant, feysydd o gyfraith yr UE a gedwir i CCC, gydag ordinhad y gall wedyn ddeddfu ar faes cyfraith yr UE a gedwir wedi'r cyfan.

Mae cliw i resymeg Llywodraeth y DG y tu ôl i gyflwyno'r mecanwaith hwn yn araith Theresa May i Gynhadledd y Blaid Geidwadol, lle dyfynnodd:

“Because we voted in the referendum as one United Kingdom, we will negotiate as one United Kingdom, and we will leave the European Union as one United Kingdom”²¹.

²¹ T May, Britain after Brexit, a Vision of Global Britain, araith i Gynhadledd y

Mewn geiriau eraill, blaenoriaeth Llywodraeth y DG yw cadw undeb a marchnad fewnol ddomestig y DG ynghyd yn absenoldeb 'glud' cyfraith yr UE, a'r unig ffordd y gallant ddirnad gwneud hynny yw mewn gwirionedd trwy gadw pwerau i newid cyfraith yr UE a gedwir yn ei gyfanrwydd i ddechrau, cyn dethol a dewis fel y gwêl yn addas pa feysydd o gyfraith yr UE a gedwir y mae'n penderfynu nad yw'n galw am agwedd gan y DG gyfan, ac y gall felly fforddio ei roi i'r CCC i ddeddfu arnynt.

Dylai CCC gael y pŵer i newid cyfraith yr UE a gedwir, yn yr un modd ag y gall senedd y DG. I wneud hyn, gallai CCC, yn gyfnewid, drafod gyda Llywodraeth y DG i gytuno ar fframweithiau fyddai'n gwarchod buddiannau 'undeb' y DG, lle gallai hynny warchod buddiannau pob rhan o'r DG (gan liniaru trwy hynny bryder Llywodraeth y DG fod angen gwarchod 'undod' domestig y DG), ond gan ymdrin hefyd â phroblemau am Brexit sydd yn benodol, neu o leiaf yn cael eu pwysleisio, yng Nghymru, fel y crybwyllir yn yr adran nesaf.

O ystyried y sylwadau uchod, all hi ddim bod yn dderbyniol o gwbl i CCC ddeddfu yn unig i newid 'cyfraith yr UE a gedwir' unwaith fod Gorchymyn yn y Cyngor wedi ei basio ar faes arbennig i roi'r hawl iddynt wneud hynny. Byddai angen cymeradwyo'r cyfryw Orchmynion yn y Cyngor gan CCC a dau Dŷ'r Senedd cyn iddynt ddod i rym, proses ragnodol dros ben, sy'n cadarnhau awydd senedd y DG i gadw gafael tynn dros CCC, gan ddangos sarhad i'w setliad datganoli presennol.

Blaid Geidwadol, Birmingham, 2 Hydref 2016

Trown yn awr at Atodlen 2. Mae'r Atodlen yn gosod allan bwerau gweinidogion datganoledig i gywiro diffygion mewn deddfwriaeth ddomestig ddatganoledig.

Mae Adran 1 Atodlen 2 yn rhoi pwerau 'r Gweinidogion datganoledig (a 1 (1)), a'r gweinidogion datganoledig ar y cyd â Gweinidogion y DG (as1 (2)) i wneud rheoliadau a all atal, unioni neu liniaru unrhyw fethiannau yng nghyfraith yr UE a gedwir i weithredu'n effeithiol, neu unrhyw ddiffyg arall yng nghyfraith yr UE a gedwir sy'n deillio o ymadawiad y DG o'r UE.

Nid oes terfyn amser ar bwerau cywiro gweinidogion Cymru yn yr Adrannau hyn, yn wahanol i'r terfyn amser o ddwy flynedd ar allu gweinidogion y DG i wneud hynny fel sydd yn Adran 7 y Mesur.

Fodd bynnag, dywed paragraff 2 (1):

No regulations may be made under this Part by a devolved authority unless every provision of them is within the devolved competence of the devolved authority.

Mae hyn yn cyfyngu'r pwerau i wneud rheoliadau i 'atal, unioni neu liniaru methiannau yng nghyfraith yr UE a gedwir' felly i reoliadau y mae'r HOLL ddarpariaethau (eisoes) o fewn cymhwysedd datganoledig Gweinidogion Cymru. Mae hyn yn golygu y gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau yn unig ar faterion sy'n deillio allan o gymhwysedd deddfwriaethol cyfredol y Cynulliad,

neu ddarpariaethau sydd yn addasu is-ddeddfwriaeth dan Ddeddf Llywodraeth Cymru hŷn 1998.

Fodd bynnag, mae paragraff 3 yn atal defnyddio'r pŵer gweithredol hwn gan Weinidogion Cymru i addasu cyfraith uniongyrchol yr UE a gedwir. Mewn geiriau eraill, mae a wnelo'r pŵer cywiro yn unig i ddeddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE. Unwaith eto, mae hyn yn bŵer llai na'r hyn a roddir i Weinidogion y DG, a all addasu cyfraith uniongyrchol yr UE a gedwir.

Yn ychwanegol, ni chaiff y Gweinidog datganoledig wneud addasiadau a allai fod yn anghyson ag addasiadau gan y DG i gyfraith uniongyrchol yr UE a gedwir. Ystyr hyn yw, petai llywodraeth y DG yn addasu un o Reoliadau'r UE, a bod y Gweinidogion datganoledig yn gyfrifol am orfodi deddfwriaeth, y bydd yn rhaid ei addasu mewn modd sy'n gwneud synnwyr gyda rheoliad newydd y DG a addaswyd.

Mae Cyfraith yr UE sy'n uniongyrchol gymwys yn cynnwys llawer o'r gyfraith am amaethyddiaeth, sydd yn faes datganoledig. Dan ddarpariaethau presennol y Mesur, ni allai CCC, er enghraifft, gyflwyno system newydd unswydd o daliadau i ffermwyr yng Nghymru fyddai'n wahanol i system bresennol yr UE ac sy'n wahanol hefyd i'r ffordd y byddai'r system honno yn cael ei throi i gyfraith y DG. Ar y llaw arall, gallai Senedd y DG gyflwyno Mesur amaethyddol fyddai'n symud ymaith unrhyw rai o ofynion rheolau'r UE a droswyd gan y Mesur²².

²² In Brief, blog gwasanaeth ymchwil CCC, Beth yw ystyr Mesur (Ymadael) yr UE i Gymru a datganoli?

Mae Adran 5 Atodlen 2 hefyd yn mynnu cydsyniad gan weinidog y DG i unrhyw reoliadau cywiro sy'n dod i rym cyn y diwrnod gadael (nas pennwyd eto gan y Mesur), neu sy'n symud ymaith drefniadau cilyddol rhwng y DG a'r UE neu ei aelod-wladwriaethau. Mae Adran 6 hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer mynnu cydsyniad gan weinidog o'r DG petai angen hynny ar gyfer Deddf y Cynulliad sy'n ymdrin â'r un pwnc.

Yn ei hanfod, felly, pryd bynnag y bydd y Mesur yn rhoi pŵer i weinidogion datganoledig, mae'n rhoi'r un pŵer i Weinidogion y DG. Gellir dadlau felly y gallai Llundain gamu i mewn a gwneud cyfreithiau i Gymru ar faterion datganoledig. Nid yw'r Mesur hefyd yn dweud y byddai hyn yn destun cydsyniad Llywodraeth Cymru neu'r CCC. Dylid mynd i'r afael â hyn rhag blaen trwy gyfrwng gwelliant i'r Mesur.

Mae Paragraff 10 Atodlen 2 yn rhoi diffiniad o'r hyn sydd o fewn cymhwysedd datganoledig y Cynulliad – h.y., lle gall yr awdurdodau wneud cywiriadau yn unig.

Fel y mae Mark Elliott felly yn crynhoi: *“At the moment, devolved legislatures are forbidden from doing things that breach EU law, even if the thing they wish to do concerns a subject-matter that is devolved. When the UK leaves the EU, by default, that restriction will go – in effect causing powers to flow from Brussels to the devolved capitals. But the Bill erects a diversion, providing that repatriated powers, even when they relate to devolved subjects, will instead go to London. The UK Government will then decide which of them to hand to the devolved institutions, the implication being that some will not be handed over”*²³.

I grynhoi, oni fydd cymalau 10 ac 11, ac Atodlen 2, y Mesur yn cael eu newid mewn dull sydd yn adlewyrchu'r setliad datganoli presennol yng Nghymru, a'r dull yr esblygodd cyfansoddiad tiriogaethol y DG dros y ddwy ddegawd ddiwethaf, dylid gwrthod y Mesur yn ei gyfanrwydd. Mae'n mynd yn erbyn setliad datganoli Cymru ar ei ffurf bresennol y cytunwyd arno yn ddemocrataidd.

²³

<https://publiclawforeveryone.com/201>

[7/07/14/1000-words-the-eu-withdrawal-bill/](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/414147/7-07-14-1000-words-the-eu-withdrawal-bill/)

4. Rhannau eraill y Ddeddf sydd yn peri pryder o safbwynt Cymru

Fel y crybwyllwyd yn adran 3 uchod, nid cymalau 10 ac 11 y Mesur yn unig ddylai gael eu beirniadu o safbwynt Cymru. Yr wyf wedi gosod allan isod faterion eraill y dylid eu hystyried, fel y crynhowyd gan yr Athro Mark Elliott, a Victor Anderson.

Mae cymal 2 yn cadw 'deddfwriaethau domestig sy'n deillio o'r UE', megis deddfwriaeth eilaidd a ddeddfir dan adran 2 (2) y Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd (DCE) at ddibenion gweithredu cyfarwydebau'r UE. (Y mae, wrth gwrs, eisoes yn ddeddfwriaeth ddomestig, ond mae cymal 2 yn sicrhau yr erys felly ar waethaf diddymu DCE). Gellid ychwanegu eithriadau i Gymal 2 (2) er enghraifft - i eithrio Cytundeb Euratom (a bennir yn Atodlen 1 DCE) er enghraifft.

Mae cymal 3 yn trosi 'deddfwriaeth uniongyrchol yr UE' i gyfraith ddomestig - rheoliadau a phenderfyniadau sydd yn cael effaith uniongyrchol yn y DG cyhyd ag yr erys yn aelod-wladwriaeth. Bydd yn parhau mewn grym yma wedi i statws aelod-wladwriaeth ddod i ben. Gellid dileu cymal 3, isadrannau 2(b) a (c), ynghyd ag Atodlen 8, Rhan 2, paragraffau 12-17, er mwyn cadw'r DG yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Mae cymal 4 yn ymdrin ag elfennau o gyfraith yr UE sydd ag effaith yn y DG diolch i adran 2(1) DCE ond nad ydynt yn dod dan gymal 3. Hawliau yw'r rhain dan ddarpariaethau cytundebau'r UE sydd ag effaith uniongyrchol - gan gynnwys darpariaethau allweddol y

Cytundeba ar Weithredu'r UE sydd yn gwneud darpariaeth ar gyfer y 'pedwar rhyddid' - nwyddau, cyfalaf, gwasanaethau a llafur. Nid yw'n glir sut y bydd hyn yn gweithio, fodd bynnag, gan na fydd rhyddid i ddinasyddion y DG symud mewn gwirionedd yn gweithio unwaith i wladwriaethau eraill yr UE hepgor unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i gydnabod y cyfryw hawliau, heb sôn am weithredu arnynt²⁴.

Mae cymal 5 yn ymdrin â statws cyfraith yr UE a gedwir. Gall y llysoedd beidio â chymhwyso Deddfau Seneddol oedd yn bodoli cyn gadael os digwydd iddynt wrthdaro a chyfraith yr UE a gedwir. Ond os cyfyd anghydfod ynghylch goruchafiaeth deddfwriaeth ddomestig ar ôl gadael, anwybyddir egwyddor goruchafiaeth yr UE. Ystyr hyn. Wedi gadael, yw y gall deddfau seneddol fod â blaenoriaeth dros gyfraith yr UE a gedwir.

Mae cymal 5(4) yn gwneud darpariaeth nad yw Siarter yr UE o Hawliau Sylfaenol yn rhan o gyfraith ddomestig wedi'r diwrnod gadael. Ond mae cymal clause 5(5) yn darparu nad effeithir ar hawliau neu egwyddorion sylfaenol sy'n ffurfio rhan o gyfraith yr UE yn annibynnol ar y Siarter trwy beidio ag ymgorffori'r Siarter ei hun mewn cyfraith ddomestig ac y gall felly ffurfio rhan o gyfraith ddomestig. Ond nid yw'r caveat hwn yn fuddiol iawn, diolch i Atodlen 1, para 3 - sy'n darparu na all unrhyw hawl i weithredu godi mewn cyfraith ddomestig wedi gadael ar sail methiant i gydymffurfio ag egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE,

²⁴

<https://publiclawforeveryone.com/201>

7/07/14/the-eu-withdrawal-bill-initial-thoughts/

ac na ellir diddymu camau deddfwriaethol a gweinyddol wedi gadael ar seiliau anghydnawsedd ag egwyddorion cyffredinol yr UE. Fodd bynnag, mae modd tynnu ar y cyfryw egwyddorion cyffredinol ar y llysoedd domestig wrth bennu cwestiynau wedi gadael am (er enghraifft) ystyr cyfraith yr UE a gedwir²⁵.

Mae cymal 6 yn ymdrin â chyfreitheg Llys Cyfiawnder Ewrop: yr egwyddorion sylfaenol yma yw, wedi gadael, na fydd cyfraith achos LICUE yn rhwymo llysoedd y DG, er y gall ddewis ei ystyried, ond rhaid i lysoedd y DG benderfynu ar achosion perthnasol yn unol â chyfreitheg LICUE cyn gadael. Mae rhai eithriadau i hyn. O safbwynt Cymru, efallai mai doeth fuasai galw am ryw ffurf newydd o system gyflafareddu i bennu ar faterion cyfansoddiadol a fuasai cyn hyn wedi eu pennu gan LCE, o ystyried na all y Goruchaf Lys ddileu cyfreithiau a basiwyd gan y Senedd, oherwydd sofraniaeth y Senedd.

Mae cymal 7 yn rhoi pwerau eithriadol ar Weinidogion y Goron i newid, diddymu neu amnewid cyfraith yr UE a gedwir trwy wneud rheoliadau gweinyddol (pwerau Harri VIII fel y'u trafodwyd yn fras uchod). Gellid gwneud cyfres o welliannau i isadran

Ystyriaethau penodol i Gymru nas gwarchodir gan y Mesur ar ei ffurf bresennol

Yn eu papur "*Sicrhau Dyfodol Cymru*", yr oedd Llywodraeth Cymru, ynghyd â Phlaid Cymru, yn gosod allan nifer o amcanion pwysig fyddai'n hanfodol er mwyn gwarchod buddiannau pobl

(4) fel na all Gweinidog wneud y cyfryw reoliadau a bennir yng nghymal 7 oni chymer yn gyntaf gyfres o gamau (i'w diffinio). Gellir newid y cymal hefyd i nodi gweithdrefn sy'n cynnwys ymgynghoriadau a chraffu, gyda'r nod o atal y Llywodraeth rhag defnyddio Offerynnau Statudol heb graffu priodol. Dylid newid Atodlen 7, Rhan 1 hefyd i adlewyrchu hyn. Gellid ychwanegu is-gymal newydd i isadran 5 (b) i nodi sefydlu awdurdodau cyhoeddus newydd penodol, a fyddai fel arfer yn gorfod cael ei wneud (onid ydynt yn ymgynghorol yn unig) bob tro trwy brif deddfwriaeth newydd. Gelid newid isadran (6) hefyd i ychwanegu at y rhestr o eithriadau sydd eisoes wedi eu cynnwys yma (i gyfyngu ar y manau lle gellir defnyddio rheoliadau).

Mae cymal 9 yn ymdrin â gweithredu'r cytundeb ymadael. Mae hwn yn gymal pellgyrhaeddol dros ben - fydd yn galluogi'r Llywodraeth i weithredu telerau'r cytundeb gyda'r UE, lle mae angen ei weithredu cyn gadael, heb ddod yn ôl i'r Senedd am yr awdurdod i wneud hynny. Gellid ychwanegu eithriad i is-gymal (4), ond byddai hyn mewn gwirionedd yn well petai'r cymal cyfan yn cael ei ddileu. Byddai Atodlen 7, Rhan 2, Para 6 wedyn yn cwmpo; ond os na ddilëir cymal 9, agwedd arall fuasai newid y paragraff hwnnw.

Cymru yn ystod proses Brexit. Mae'r materion a'r amcanion a osodir allan yn y papur hwnnw yn adlewyrchu pam fod gan y Mesur presennol ddiffygion mor ddifrifol ar ei ffurf bresennol, gan nad yw'n parchu'r setliad datganoli presennol a'r dull yr esblygodd cyfansoddiad tiriogaethol y DG dros yr ugain mlynedd ddiwethaf. Heb i gerrig

²⁵ Ibid

sylfaen proses Brexit gael eu gosod allan mewn dull sydd yn adlewyrchu ac yn gwarchod y ddau fater sylfaenol hyn, yna ni fydd modd gwarchod materion sydd yn benodol i Gymru, neu sydd â mwy o arwyddocâd yng Nghymru nac yng ngweddill y DG.

Er bod y DG yn ei chyfanrwydd yn cyfrannu'n net at yr UE, mae Cymru yn elwa yn net. Ymhellach, oherwydd maint Cymru, ac am nad yw ei sefyllfa yn peri cwestiynau gwleidyddol a chyfansoddiadol anodd fel sy'n codi yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, ynghyd â'r ffaith fod mwyafrif pleidleiswyr Cymru wedi pleidleisio i adael yr Undeb Ewropeaidd, nid yw ein sefyllfa fargeinio fel gwlad yn gryf. Mae'r Mesur presennol yn adlewyrchu'r gwendid hwnnw. Mae'r sefyllfa hon yn un rhwystredig, yn enwedig o gofio mai Cymru oedd yr unig wlad ddatganoledig i bleidleisio i adael yr UE, ynghyd â Lloegr.

Gosodir allan isod yn fras rai o'r materion hynny sydd yn arwyddocaol, neu sy'n benodol i Gymru, ac sy'n dangos pam fod agwedd ddeuaidd llywodraeth y DG yn y modd y drafftiwyd y Mesur yn annerbyniol. Nid yw naws economi Cymru, ei hieithoedd a'i diwylliannau a dylanwad yr UE ar yr holl ffactorau hyn dros y deugain mlynedd ddiwethaf yn cael ei warchod ar hyn o bryd gan y Mesur. Mae'r materion hyn hefyd yn cael eu gosod allan yn llawnach ym mhapur Llywodraeth Cymru / Plaid Cymru ar y cyd "Sicrhau Dyfodol Cymru" a phapur Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi ar Brexit: Datganoli.

Gweithgynhyrchu

Mae Marchnad Sengl yr UE yn bwysicach i Gymru nac i weddill y DG. Yr oedd yr UE yn cyfrif am 67% o holl allforion Cymru, ac yn 2016, yr oedd gan Gymru warged masnach o £2.25 biliwn gyda gwledydd yr UE, a diffyg masnach £2.3 biliwn gyda gwledydd heb fod yn yr UE. Byddai methu dod i gytundeb masnach rydd cynhwysfawr gyda chyfranogiad llawn yn y Farchnad Sengl, yn arbennig i gwmnïau'r UDA sydd yn gweithredu allan o Gymru, yn drychinebus i weithgynhyrchu Cymru, sydd yn werth £9 biliwn i economi Cymru. Byddai'r dewis arall o fasnachu dan delerau'r WTO yr un mor drychinebus i allforion Cymru, gan y byddai allforion bwyd yn wynebu tariff o 15% ar allforion i'r UE, tra byddai gwneuthurwyr ceir yn wynebu tariff o 10%.

Mae gan Gymru gyfran fwy o weithgynhyrchu yn economi Cymru na gweddill y DG, ac y mae nwyddau'r gweithgynhyrchwyr hynny yn croesi'r ffin yn hollol reolaidd. Allforiodd dau o weithiau peiriannau yng Nghymru rhwng 80 a 85% o'u cynnyrch i'r UE, a mewnfario rhyw 70% o rannau neu ddeunyddiau sydd yn rhan o greu peiriannau o'r UE. Yng ngoleuni'r ystadegau hyn felly, mae'n hanfodol bwysig i unrhyw gytundebau masnach neilliol y daw'r DG iddynt (a chynnwys y Mesur Tollau a Masnach sydd ar y gweill) yn adlewyrchu'r agweddau penodol hyn o economi Cymru.

Amaethyddiaeth

Er nad yw'r diwydiant amaethyddol mor arwyddocaol yn nhermau GDP, y mae'n arwyddocaol iawn o ran ei bwysigrwydd diwylliannol, a'i safle fel cadarnle'r iaith Gymraeg a'r effaith posib ar gymunedau sydd yn

economiaidd fregus a dibynnol. Aiff 92% o allforion amaethyddol i'r UE. Dynodwyd 80% o Gymru yn Ardal Llai Ffatriol dan ddynodiad yr UE, felly mae'r risgiau i ffermwyr Cymru yn gyfatebol fwy nac i ffermwyr yn Lloegr.

Mae effaith cytundebau masnach rydd y dyfodol ar Gymru, ac ar y sector amaethyddol yn benodol, yn bryder gwirioneddol, a dylai fod gan Gymru lais penodol ym Mesur Masnach Brexit (y disgwylir ei gyhoeddi yr hydref hwn) ac mewn unrhyw gytundebau yn y dyfodol â gwledydd heb fod yn yr UE, fel y crynhowyd gan Mark Drakeford:

*"We would need a differentiated approach to it. We wince a little bit every time we hear a UK minister say in a throwaway remark how great it would be to have a free trade deal with NZ. If we get the wrong free trade deal with NZ, it will be the end of Welsh hill farming and sheep farming"*²⁶.

Felly ni ddylid caniatáu i gytundebau masnach gyda gwledydd heb fod yn yr UE ar amaethyddiaeth, yn ogystal â'r diwydiant ceir, awyrenneg a dur, fynd rhagddynt, neu fynd rhagddynt yng nghyd-destun Cymru, os bydd yr effaith ar economi presennol Cymru yn anghymesur. Yng nghyd-destun amaethyddiaeth, nid yn unig y mae cyflwyno mwy o gystadleuaeth yn bryder, ond mae cyflwyno bwydydd o wledydd nad ydynt yn cynhyrchu bwyd i'r un safonau haearnaidd o uchel â ffermydd Cymru hefyd yn achosi loes - gan gynnwys bwydydd GM neu fwydydd sy'n uchel mewn hormonau twf neu gadwolion.

Ni ddylem anghofio chwaith yn y cyd-destun hwn sylwadau Liam Fox, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach, yn ei lythyr at weinidogion y cabinet yn awgrymu eu bod yn rhwystro'r gweinyddiaethau datganoledig rhag rhoi fetto ar gytundebau masnach gydag awdurdodaethau eraill, ac na ddylai'r gweinyddiaethau datganoledig eistedd wrth y bwrdd masnach newydd y penderfynodd y Prif Weinidog ei ddiwygio. Os aiff y Mesur ar y llyfr statud fel y saif, ac os adlewyrchir barn Liam Fox ym Mhapur Gwyn a Mesur Masnach ei adran, fe ddaw'r math hwn o ymddygiad yn norm, nid yn eithriad, gan na fydd y camau gwirio a chydbwyso sydd eu hangen i warchod y setliad datganoli presennol wedi eu cynnwys yn ei ddarpariaethau.

Gweithlu

Mae llafur o'r UE yn arbennig o bwysig i economi Cymru. Mae dinasyddion yr UE yn gwneud cyfraniadau nodedig i'r diwydiant amaeth-bwyd a'r sector gofal iechyd yng Nghymru²⁷. Er mai dim ond 79,000 o bobl o genhedloedd yr UE sy'n byw yng Nghymru, ffigwr cymharol isel, mae eu cyfraniadau wedi canoli yn y GIG, amaethyddiaeth, twristiaeth a rhai sectorau gweithgynhyrchu²⁸. Gallai'r rhyddid i symud cysylltiedig â gwaith fel cyfaddawd fod yn bwysig iawn ac yn ystyriaeth arbennig i Gymru.

Cyllido

Mae llywodraeth y DG yn cyllido Cymru ar sail poblogaeth, ac y mae cyllid yr UE i Gymru ar sail angen. Mae Fformiwla

²⁶ Mark Drakeford, fel y dyfynnwyd yn HoL EUC Brexit: Devolution, paragraff 117

²⁷ Dr Rachel Minto, HoL EUC Brexit: Devolution paragraff 122

²⁸ Leanne Wood, fel y dyfynnwyd yn HoL EUC Brexit: Devolution, para 122

Barnett yn 'arbennig o anaddas' i gefnogi anghenion penodol Cymru wedi Brexit, oherwydd y 'bydd unrhyw fformiwla nad yw wedi ei chyfeirio at anghenion yn arwain at gryn golled' i'r wlad. Gan y daw 80% o incwm ffermydd Cymru hefyd o gronfeydd yr UE, byddai cymhwyso Fformiwla Barnett i gymorthdaliadau ffermio yn anfanteisiol i'r eithaf. Bydd colli cymorthdaliadau'r PAC, cronfeydd strwythurol a chyllid arall yr UE yn cael effaith sylweddol ar gymunedau gwledig a'r cymoedd. Eto, mae angen diwygio'r Mesur i roi'r hawl i CCC i newid cyfraith uniongyrchol yr UE a gedwir, fel, er enghraifft, y gallai CCC gyflwyno system newydd unswydd o daliadau i ffermwyr yng Nghymru, wedi Brexit. Yn hytrach, fel y dywedodd Mark Elliott, codi *'diversion, where repatriated powers, even when they relate to devolved subjects, go instead to London'*.

Yn fyr, mae Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd, Pysgodfeydd, Addysg, Iechyd a Pholisi Rhanbarthol oll yn feysydd datganoledig yng ngofal CCC, a gall y sefydliad hwnnw ar hyn o bryd ddeddfu arnynt o fewn cyfyngiadau cyfraith yr UE. Nid yw'n dderbyniol o gwbl i lywodraeth y DG yn awr gyfyngu gallu CCC i ddeddfu yn y meysydd hynny yn unig yn unol â chyfraith yr UE a gedwir at y dyfodol, tra'u bod ar yr un pryd yn gallu newid cyfraith yr UE a gedwir. Bydd y sefyllfa yn arwain at anghydbwysedd dwfn, ac yn erydu pwerau cyfredol CCC. Mae'n annerbyniol hefyd i CCC gael y pŵer i newid briwsion o gyfraith yr UE a gedwir a deflir ati gan lywodraeth y DG

oddi ar y bwrdd trwy Orchmynion yn y Cyngor. Mae'r crynodeb byr o faterion penodol Gymreig uchod yn dangos pam bod hyn yn wir.

Ymhellach, mae achos dros ddweud y dylai cymwyseddau eraill fod yn ddatganoledig i CCC o ganlyniad i Brexit. Er enghraifft, dylid gwneud lle i anghenion marchnad lafur a demograffig penodol Cymru trwy ddatganoli rhai pwerau deddfu ar fudo, er y bydd angen meddwl yn ofalus am hyn er mwyn osgoi ffin gyda gwiriadau pasbort. Gall y gyfraith ar gyflogaeth a defnyddwyr hefyd fod yn feysydd lle gall peth datganoli yn awr fod yn ddoeth.

Er y bydd sylfeini dychwelyd cyfreithiau'r UE i'r DG wedi eu gosod allan yn y Mesur, gall rhai o'r materion a nodwyd uchod hefyd angen eu trin yng nghyd-destun y Mesurau Brexit eraill a gyhoeddir toc, sef²⁹:

- Mesur Tollau. Bydd hyn yn galluogi'r DG i redeg ei system tollau ei hun, gan gynnwys gosod a chasglu trethi tollau.
- Mesur Masnach. Bydd hyn yn galluogi'r DG i drafod a rhedeg ei pholisi masnach ryngwladol ei hun. Mae mater allweddol yma ynghylch cael rheolaeth seneddol dros gytundebau masnach y dymuna'r Llywodraeth ddod iddynt.
- Mesur Mewnfudo. Bydd hyn yn galluogi'r DG i redeg ei system fewnfudo ei hun yng nghyswllt

²⁹ Fel y crynhowyd gan bwyntiau bwled Victor Anderson o'i 'Briefing on Brexit in Parliament'

gwledydd yr UE wed iddynt adael yr UE.

- Mesur Pysgodfeydd. Bydd hyn yn galluogi'r DG i redeg ei system pysgodfeydd ei hun.
- Mesur Amaethyddiaeth. Bydd hyn yn sefydlu system newydd do daliadau i ffermwyr a thirfeddianwyr ar ôl gadael Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE. Gall hyn fod yn ffordd o gymell gwarchodaeth gryfach i gefn gwlad.
- Mesur Camau Diogelu Niwclear. Mae hyn yn gofalu y bydd y DG yn parhau i gwrdd â'i ymrwymadau rhyngwladol o ran trin deunyddiau niwclear sifil yn ddiogel ac am beidio â lledaenu mwy, wedi gadael yr UE ac Euratom.
- Mesur Sancsiynau Rhyngwladol. Bydd hyn yn galluogi'r DG i weithredu ei pholisi ei hun i osod neu godi sancsiynau ar wledydd eraill.

Casgliad

Bydd yr holl Fesurau a ddyfynnir uchod yn galw am graffu dwys er mwyn sicrhau cytgord gyda Mesur (Ymadael) yr Undeb Ewropeaidd diwygiedig, a sicrhau na fydd Llywodraeth y DG yn tramgwyddo'r setliad datganoli presennol ac egwyddorion cyfansoddiad tiriogaethol y DG sydd wedi esblygu. Yn wir, nawr yw'r amser i'r cyfansoddiad tiriogaethol hwnnw gael ei adlewyrchu mewn cyfansoddiad ysgrifenedig i'r DG fel nad oes amheuaeth ynghylch yr agwedd i'w mabwysiadu gan lywodraeth y DG ar faterion sy'n effeithio ar Gymru a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill.

Mae'r gwahaniaeth rhwng rhethreg llywodraeth y DG a gwirionedd y gyfraith llythyren ddu arfaethedig fel y'i cynhwysir yn y Mesur yn dystiolaeth i'r angen hwn, fel y mae agwedd arfaethedig Liam Fox at drafodaethau masnach rhyngwladol. Dylai dymuniadau pobl Cymru gael eu parchu fel y mynegwyd mewn dau refferendwm ar ddatganoli trwy ganiatáu sedd i'w cynrychiolwyr wrth y bwrdd trafod yn y trafodaethau gadael gyda'r UE, lle mae'r trafodaethau yn cynnwys canoli ar faterion datganoledig.

Dylai trafod nid gorchymyn hefyd fod yn rheol i berthynas CCC – llywodraeth y DG fel y gellir gwarchod buddiannau penodol Cymru yn iawn yng nghydestun y setliad datganoli presennol ac yn unrhyw gytundebau fframwaith sydd eu hangen i warchod undeb domestig y DG ar rai materion, megis masnach.

Rhaid hefyd derbyn y newidiadau arwyddocaol i'r Mesur a nodwyd isod, ac ni ddylid eu peryglu ar unrhyw gyfrif.

Yn olaf, i ragweld y pwerau deddfwriaethol mae ar CCC eu hangen i warchod buddiannau Cymru, ac yn unol â'r setliad datganoli presennol, dylai mwy o adnoddau fod ar gael i'r sefydliad hwnnw i roi iddo'r gallu i ymdopi â'r galwadau ychwanegol a syrth arno. Fel arall, mae bron yn sicr y bydd y bygythiad dirfodol presennol i ddatganoli settlement Cymru yn cael ei wireddu, ac yr anwybyddir y mandad i CCC a roddwyd gan bobl Cymru mewn dau refferendwm.

Awen Fflur Jones

Llyfryddiaeth

1. Briefing on Brexit in Parliament – Victor Anderson
2. Briefing on the European (Withdrawal Bill) – Victor Anderson, 28.07.17
3. Thoughts on amending the EU Repeal Bill – Victor Anderson, 14.07.17
4. Devolution and the European Union (Withdrawal Bill) – Paul Bowers, Parliament and Constitution Centre, Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, 25 Gorffennaf 2017
5. Brexit: Devolution – Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar yr Undeb Ewropeaidd, 4^{ydd} Adroddiad Sesiwn 2017-2019, cyhoeddwyd 19 Gorffennaf 2017
6. Sicrhau Dyfodol Cymru – Papur Gwyn a gyhoeddwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Phlaid Cymru
7. Mesur (Ymadael) yr Undeb Ewropeaidd
8. Nodiadau esboniadol ar Fesur (Ymadael) yr Undeb Ewropeaidd
9. Mesur (Ymadael) yr Undeb Ewropeaidd – Memorandwm ynghylch y Pwerau Dirprwyedig yn y Mesur i'r Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheolaethol
10. The Repeal Bill – Factsheets 1-10 - Department for Exiting the European Union
11. Impact Assessment: Summary: Intervention and Options
12. Graddio PPRh Mesur (Ymadael) yr Undeb Ewropeaidd Adran Ewropeaidd: addas at y diben – Pwyllgor Polisi Rheolaethol
13. Datganiad ar y cyd gan Carwyn Jones a Nicola Sturgeon mewn ymateb i gyflwyno Mesur (Ymadael) yr Undeb Ewropeaidd dyddiedig 13 Gorffennaf 2017
14. The 'Great Repeal Bill' and delegated powers: House of Lords Select Committee on the Constitution
15. The "Great Repeal Bill" and Delegated Powers – Yr Athro Mark Elliott, Public Law for Everyone
16. Empty Threats: The Explanatory Notes to the European Union (Withdrawal) Bill, Paul Daly, 13 Gorffennaf 2017
17. The EU (Withdrawal) Bill; some initial thoughts, Julian Gregory, 13 Gorffennaf 2017
18. The EU (Withdrawal) Bill: Initial Thoughts, Yr Athro Mark Elliott, Public Law for Everyone, 14 Gorffennaf 2017
19. EU (Withdrawal Bill): You say tomato, I say unprecedented Executive power, Angela Patrick
20. 1,000 words / The EU (Withdrawal) Bill, Yr Athro Mark Elliott, Public Law for Everyone, 14 Gorffennaf 2017
21. Scared about your human rights after Brexit? You should be, Schona Jolly, The Guardian, 14 Gorffennaf 2017
22. Brexit Time – A Running Commentary – Uncategorised Don't Shoot the Messenger; Brexittime, 15 Gorffennaf 2017
23. Where the Brexit battles over the repeal bill will be fought in parliament, Steve Peers, 17 Gorffennaf 2017
24. European Union (Withdrawal) Bill: complexity without clarity? Daniel Greenberg, 17 Gorffennaf 2017

25. The European Union (Withdrawal) Bill: constitutional change and legal continuity, Jack Simson Caird, 18 Gorffennaf 2017
26. The European Union (Withdrawal) Bill – initial reflections on the Bill’s delegated powers and delegated legislation, 18 Gorffennaf 2017, Hansard Society
27. Henry V111 Comes to Scotland, Wales and Northern Ireland, and Other Devolution Questions in the EU (Withdrawal) Bill, Kenneth Campbell CF, UK Constitutional Law Association,
28. A “blatant power grab”? The Scottish Government on the EU (Withdrawal) Bill, Yr Athro Mark Elliott, Public Law for Everyone, 10 Awst 2017
29. The Devil in the Detail: Twenty Questions about the EU (Withdrawal) Bill, Yr Athro Mark Elliott, Public Law for Everyone, 14 August 2017
30. “Fox tries to bypass Scots and Welsh in bid for trade deals”, erthygl yn y Times Sadwrn 19 Awst 2017
31. “Opportunity Costs”, erthygl flaen y Times, Sadwrn 19 Awst 2017
32. “Devolution”, pennod gan Jo Hunt
33. The Repeal Bill Legal and Practical Challenges of Implementing Brexit – Tobias Lock, Scottish Centre on European Relations
34. How Devolution has altered some fundamentals of the British Constitutions, Kenneth Cambell, CF, UK Constitutional Law Association
35. Brexit and devolution: laws and land grabs, Yr Athro Jim Gallagher, 15 Awst 2017
36. Brexit: A moment of Existential Danger, Ned Thomas, Planet The Welsh Internationalist, Rhif. 227 Hydref
37. Legislating for Brexit: the Great Repeal Bill- Briefing Paper Llyfrgell Tŷr Cyffredin, 23 Chwefror 2017
38. Legislating for the UK’s withdrawal from the European Union, Department for Exiting the European Union
39. First Ministers will work together to stop Repeal Bill ‘power grab’, erthygl yn y Western Mail, Mercher Awst 2017